

CARDIFF
UNIVERSITY

PRIFYSGOL
CAERDYDD

Welsh Economy
Research Unit

Yr Uned Ymchwil
i Economi Cymru

Prosiect Manteisio ar Fand
Eang Cyflym Iawn i Fusnesau

Arolwg Aeddfedrwydd Digidol ar gyfer Cymru 2018 – Crynodeb



UNDEB Ewropeaidd
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund**

Mae annog defnydd Busnesau Bach a Chanolig (BBaChau) o dechnolegau digidol yn hanfodol i ragoloygon economaidd Cymru yn y dyfodol.


Mae Arolwg Aeddfedrwydd Digidol ar gyfer Cymru 2018 yn taflu goleuni ar yr her hon, gan ddarparu canfyddiadau trydydd arolwg blynyddol Ysgol Busnes Caerdydd o BBaChau yng Nghymru, a'r modd y maent yn mabwysiadu ac yn defnyddio technolegau digidol sy'n cael eu galluogi gan fand eang.

“Yn Arolwg Aeddfedrwydd Digidol Cymru ceir tystiolaeth o sampl cynrychioliadol o BBaChau yng Nghymru, ar sail 479 o ymatebion. Mae'r canfyddiadau'n cynnig cipolwg ar y prosesau a ddefnyddir i ffurfio perfformiad busnes BBaChau drwy fabwysiadu band eang, ac effaith hynny.

Canfyddiadau'r arolwg

Mae canlyniadau'r Arolwg yn achos gobaith o ran ymwneud BBaChau â band eang cyflym iawn a thechnolegau digidol sydd wedi'u galluogi. Fe welir bod y mwyafrif o BBaChau yn ymgysylltu â band eang cyflym iawn drwy gysylltiadau llinell sefydlog, ac yn mabwysiadu mewn niferoedd cynyddol (53% - 11 pwynt canran yn uwch na ffigur 2017). Mae hyn, a'r ffaith mai dim ond 1% o BBaChau sy'n nodi nad oes ganddynt fand eang yn 2018 (Gweler Ffigur 1), yn awgrymu bod cysylltedd band eang bellach wedi'i brif-ffrydio ymhlith BBaChau yng Nghymru – gyda'r mwyafrif o'r cysylltiadau hyn yn gysylltiadau band eang cyflym iawn.

Dengys y dadansoddiad bod nifer cynyddol o BBaChau yn adrodd eu bod yn gwneud defnydd parhaus o wasanaethau cwmwl, ghyda 72% o BBaChau bellach yn defnyddio o leiaf un math o wasanaeth cyfrifiadura cwmwl 'uwch' (i fyny o 60% yn 2017). Tra bo Ffigur 2 yn dangos mai nifer cymharol fach o fusnesau sy'n defnyddio gwasanaethau cyfrifiadura cwmwl uwch (mewn perthynas â gwasanaethau sylfaenol), mae'r canfyddiadau'n amlygu bod y mwyafrif o fathau o wasanaeth wedi cynyddu o ran defnydd rhwng 2017 a 2018.



Ffigur 1. Mabwysiadu band eang, yn ôl math (% o BBaChau)

74%

o BBaChau yn adrodd eu bod yn gwerthu ar-lein

53%

o BBaChau yn adrodd eu bod yn defnyddio band eang cyflym iawn yn 2018

Ffordd arall y mae BBaChau yn gallu manteisio ar dechnolegau digidol yw datblygu sgiliau'r gweithwyr. Yma, mae'r canlyniadau'n dangos cwmp bach yn y nifer o BBaChau gyda 50% neu fwy o'u gweithlu yn meddu ar sgiliau TGCh canolraddol neu uwch, o 70% i 67% dros gyfnod 2017-2018.

Mae'r canfyddiadau'n dangos ymhellach y graddau y mae BBaChau yn defnyddio technolegau digidol i wneud busnes. Mae hyn yn cynnwys nifer cynyddol o werthiannau e-fasnach, gyda 74% o BBaChau yn adrodd am werthiant a wasanaethir ar-lein (i fyny o 67% i 2017), ond cwmp yn y gyfran o BBaChau yn pwrcasu ar-lein (o 91% yn 2017 i 87% yn 2018).

Ffigur 2. Cyfran o fusnesau'n defnyddio gwasanaethau cyfrifiadura cwmwl, yn ôl categori (% o BBaChau)

Gwasanaethau cyfrifiadura cwmwl sylfaenol

Ebost



Gwasanaethau cyfrifiadura cwmwl uwch

Cyfrifo a chadw cyfrifon



Gwneud copi wrth gefn o ddata




Protocol llais dros y rhyngwrwyd



Taliadau electronig




Fideo-gynadledda




Rheoli cysylltiadau cwsmeriaid



Meddalwedd rheoli prosiect



Pŵer cyfrifiadura i redeg busnes



Meddalwedd rheoli adnoddau dynol




Cynllunio adnoddau menter




Mae dadansoddiad o'r canfyddiadau'n dangos cyswllt clir rhwng ymgysylltu â'r technolegau digidol hyn a chynnydd mewn trosiant, proffidioldeb, cyflogaeth ac arloesi rhwng 2017 a 2018. Mae hyn yn amlygu'r potensial ar gyfer sicrhau buddion cynhyrchedd drwy gefnogaeth i'r defnydd cynyddol o fand eang.

Gellir dirnad pedwar grŵp o fusnesau o'n dadansoddiad o ganlyniadau'r arolwg (gweler Ffigur 4). Mae cymharu'r data diweddaraf gyda data o'n Harolwg yn 2017 yn dangos nifer uwch o fusnesau'n dod o fewn categorïau 'adnoddau digidol wedi'u hymgorffori' neu 'ymelwyr gweithredol' – sy'n arwydd o aeddfedrwydd digidol yn y gymuned BBaCh.



Ffigur 3. Perfformiad BBaChau sydd â band eang cyflym iawn (% yn nodi canlyniadau cadarnhaol)



Ffigur 4. Cystyrau aeddfedrwydd digidol yng Nghymru ((% BBaChau yn 2018)

Mae'r adroddiad yn dangos tueddiadau cadarnhaol o ran mabwysiadu ar draws lleoliadau gwledig a threfol yng Nghymru, a allai gynorthwyo i gau bylchau cynhyrchedd rhwng rhanbarthau.



Er bod y darlun cyffredinol a gyflwynir gan y canfyddiadau yn un o ddigideiddio cynyddol mewn BBaChau yng Nghymru, mae hefyd yn amlygu nad yw'r trawsnewid hwn yn llinellol pan gaiff ei ystyried ar sail flynyddol, gyda rhai dangosyddion yn dirywio rhwng 2017 a 2018. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu natur esblygol technolegau digidol, a'r angen parhaus ar i BBaChau addasu. Bydd Arolwg 2019 yn ein helpu i ddeall cyfeiriad y tueddiadau mabwysiadu'n well dros amser.

Yn olaf, y cyd-destun allweddol i Arolwg Aeddfedrwydd Digidol ar gyfer Cymru 2018 fu ansicrwydd ynghylch proses trawsnewid yr UE. Er bod diddordeb mewn gweld i ba raddau mae mabwysiadu'r adnoddau a wnaed yn bosibl drwy fand eang cyflym iawn yn gwella gwydnwch BBaChau, ac yn dileu rhwystrau dethol at dwf, rydym ni'n ymwybodol y gallai BBaChau sy'n ymgysylltu'n ddigidol fod mewn gwell sefyllfa i dyfu allforion, mewn sefyllfa well i osgoi costau trafodion tramor, ac yn fwy gwybodus am gyfleoedd tramor.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Dylan Henderson, Calvin Jones, Max Munday, Laura Norris, Annette Roberts, Neil Roche a Chen Xu.

Ffôn: 029 2087 6928

Ebost: hendersond3@cardiff.ac.uk

Twitter: @CUWERU

Mae'r llyfryn hwn ar gael yn y Saesneg

Mae canfyddiadau manwl pellach o Arolwg Aeddfedrwydd Digidol ar gyfer Cymru 2018 i'w gweld yn y prif adroddiad, ar gael yn:
<http://www.cardiff.ac.uk/cy/superfast-broadband-project/digital-maturity-survey>



@CUWERU

CARDIFF
UNIVERSITY

PRIFYSGOL
CAERDYDD

Cardiff Business School
Ysgol Busnes Caerdydd

Mae'r Adroddiad blynyddol hwn yn rhan annatod o'r rhaglen Manteisio ar Fand Eang Cyflym iawn i Fusnesau, a gyllidir yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) drwy Lywodraeth Cymru.

Gwasanaeth cymorth busnes am ddim yw *Cyflymu Cymru i Fusnesau* sy'n helpu busnesau bach a chanolig cymwys yng Nghymru i wneud y gorau o dechnoleg ar-lein. Gan gynnig dosbarthiadau meistr, cyngor un i un a gwasanaeth adolygu gwefannau am ddim, gallai eu cymorth helpu eich busnes i arbed arian, hybu gwerthiant ac elw a gwella cynhyrchedd.

Ffôn: 03000 6 03000

www.businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy

Ebrill 2019